Estyn
Rhagoriaeth i bawb ~ Excellence for all
Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

# Adroddiad ar

# Ysgol Gymunedol Maenclochog
# Maenclochog
# Clunderwen
# Sir Benfro
# SA66 7LB

## Dyddiad yr arolygiad: Mehefin 2012

## gan

## Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru

Yn ystod pob arolygiad, nod arolygwyr yw ateb tri chwestiwn allweddol:

**Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau?**

**Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?**

**Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?**

Mae arolygwyr hefyd yn rhoi barn gyffredinol ar berfformiad presennol yr ysgol a'i rhagolygon gwella.

Yn yr arfarniadau hyn, mae'r arolygwyr yn defnyddio graddfa bedwar pwynt:

| Barn | Yr hyn mae'r farn yn ei olygu |
|---|---|
| **Rhagorol** | Llawer o gryfderau, gan gynnwys enghreifftiau arwyddocaol o arfer sy'n arwain y sector |
| **Da** | Llawer o gryfderau a dim meysydd pwysig sydd angen eu gwella'n sylweddol |
| **Digonol** | Mae cryfderau'n gorbwyso'r meysydd i'w gwella |
| **Anfoddhaol** | Mae'r meysydd pwysig i'w gwella yn gorbwyso'r cryfderau |

Lluniwyd yr adroddiad hwn yn unol ag Adran 28 Deddf Addysg 2005.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor, Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.gov.uk

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.gov.uk

**Ⓗ Hawlfraint y Goron 2012: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.**

**Dyddiad cyhoeddi: 29/08/2012**

## Cyd-destun

Lleolir yr ysgol mewn pentref gwledig wrth odre’r Preseli yng ngogledd Sir Benfro a daw’r disgyblion o’r pentref a’r ardaloedd cyfagos. Mae Maenclochog wedi ei chlustnodi fel ardal wledig ddifreintiedig gan Lywodraeth Cymru.

Mae’r ysgol yn un draddodiadol Gymraeg a daw 12% o’r disgyblion o gartrefi lle mae’r Gymraeg yn brif iaith; mae’r ffigwr wedi gostwng yn sylweddol ers yr arolygiad diwethaf.

Mae 103 disgybl llawn amser yn yr ysgol a phedwar disgybl rhan amser. Maent yn cynrychioli ystod lawn o allu ac mae eu cyraeddiadau yn isel mewn iaith a chyfathrebu pan ddechreuant yn yr ysgol.

Mae gan 19% o’r disgyblion anghenion dysgu ychwanegol, sy’n agos at y cyfartaledd cenedlaethol. Nid oes unrhyw blant mewn gofal. Mae canran fechan iawn o ddisgyblion o gefndir lleiafrifoedd ethnig. Mae 10% yn derbyn prydau ysgol am ddim, sydd yn is na’r ffigwr cenedlaethol.

Arolygwyd yr ysgol ddiwethaf ym Mehefin 2006 ac mae’r pennaeth presennol yn ei swydd ers Medi 2010. Gwelwyd newidiadau sylweddol yn staffio’r ysgol yn ystod y ddwy flynedd ddiwethaf, gan gynnwys y pennaeth a’r dirprwy. Roedd un athrawes i ffwrdd ar gyfnod mamolaeth yn ystod yr arolygiad.

Y gyllideb ysgol unigol fesul disgybl ar gyfer Ysgol Maenclochog yn 2011-2012 yw £3,217. Yr uchafswm fesul disgybl yn ysgolion cynradd Sir Benfro yw £5,323 a'r lleiafswm yw £3,000. Mae Ysgol Maenclochog yn safle 53 o'r 61 ysgol gynradd yn Sir Benfro o safbwynt y gyllideb ysgol fesul disgybl.

## Crynodeb

| | |
|---|---|
| **Perfformiad presennol yr ysgol** | **Da** |
| **Rhagolygon gwella'r ysgol** | **Da** |

### Perfformiad presennol

Mae perfformiad cyfredol yr ysgol yn dda oherwydd bod:

- rhan fwyaf y disgyblion yn gwneud cynnydd da mewn perthynas â'u gallu a'u perfformiad blaenorol;
- yr ysgol yn darparu ystod o brofiadau dysgu diddorol sydd, ar y cyfan, yn cyfarfod ag anghenion rhan fwyaf y disgyblion;
- athrawon yn defnyddio amrywiaeth effeithiol o strategaethau addysgu ac yn gwneud defnydd da o adnoddau;
- yr ysgol yn sicrhau cymuned ofalgar, gynhwysol lle teimla'r disgyblion yn hapus a diogel; a bod
- ethos teuluol sy'n seiliedig ar weithredu polisïau sy'n parchu hawliau pob unigolyn o fewn cymuned yr ysgol.

### Rhagolygon gwella

Mae rhagolygon gwella'r ysgol yn dda oherwydd:

- dan arweiniad y pennaeth, mae gan staff weledigaeth glir a chytûn ynglŷn â chyfeiriad a gwerthoedd yr ysgol;
- bod gan bob un o'r staff ddisgwyliadau uchel o'i gilydd ac maent yn gweithio'n dda fel tîm;
- bod cynlluniau strategol yn cael effaith gadarnhaol iawn ar safonau, lles a darpariaeth ar draws yr ysgol; a bod
- y cynllun gwella ysgol yn cysylltu'n glir â'r broses hunan arfarnu, ac yn adnabod blaenoriaethau priodol ar gyfer symud yr ysgol ymlaen.

## Argymhellion

Er mwyn gwella, mae angen:

A1 codi safonau ysgrifennu estynedig Saesneg ar draws y cwricwlwm yng nghyfnod allweddol 2;

A2 cryfhau'r gyfundrefn asesu, yn arbennig y broses tracio ac asesu ar gyfer dysgu;

A3 sicrhau bod yr holl ddisgyblion mwy abl a thalentog yn gwneud cynnydd priodol;

A4 datblygu rôl strategol y corff llywodraethol fel cyfeillion beirniadol;

A5 datblygu'r ysgol fel cymuned ddysgu broffesiynol ac ymglymu wrth rwydweithiau arfer broffesiynol; a

A6 gwella ymwybyddiaeth y disgyblion o'u rôl fel dinasyddion byd eang.

**Beth sy'n digwydd nesaf?**

Bydd yr ysgol yn llunio cynllun gweithredu yn dangos sut y bydd yn mynd i'r afael â'r argymhellion.

## Prif ganfyddiadau

| Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau? | Da |
|---|---|

**Safonau: Da**

Ar draws yr ystod oedran, mae bron pob disgybl yn gwneud cynnydd da wrth gaffael medrau llythrennedd a chyfathrebu yn yr iaith Gymraeg. Mae'r rhan fwyaf yn y Cyfnod Sylfaen yn gwrando'n astud yn ystod sesiynau torfol ac yn mynegi eu syniadau'n hyderus a chywir. Mae ganddynt ddiddordeb mewn llyfrau gyda'r rhan fwyaf yn defnyddio ystod eang o strategaethau i'w galluogi i ddarllen geiriau anghyfarwydd. Erbyn Blwyddyn 2, mae rhan fwyaf yn defnyddio ymadroddion a brawddegau yn effeithiol i gyfathrebu eu syniadau. Mae llawer yn medru ysgrifennu'n estynedig gan ddefnyddio ansoddeiriau ac atalnodi'n gywir.

Mae'r rhan fwyaf o'r disgyblion yng nghyfnod allweddol 2 yn gwrando'n ofalus yn ystod gwersi ac yn cyfrannu'n bwrpasol mewn trafodaethau grŵp a dosbarth. Mae llawer yn mwynhau chwarae rôl ac yn cyfathrebu'n fyrlymus. Mae'r rhan fwyaf yn ddarllenwyr hyderus ac, erbyn diwedd y cyfnod allweddol, yn cywain gwybodaeth o wahanol ffynonellau, megis llyfrau a gwefannau. Erbyn Blwyddyn 6, mae llawer o'r disgyblion yn ysgrifennu'n fedrus at nifer o ddibenion ac yn arddangos rhuglder a chywirdeb cynyddol yn eu gwaith.

Mae disgyblion cyfnod allweddol 2 yn defnyddio eu medrau ysgrifennu estynedig yn yr iaith Saesneg mewn pynciau eraill fel gwyddoniaeth a hanes, ond nid yw'r agwedd hon wedi ei datblygu'n llawn. Nid yw disgyblion o allu uwch yn datblygu'n llawn eu gallu yn gyson ym mhob pwnc.

Mae'r disgyblion sydd ag anghenion dysgu ychwanegol yn gwneud cynnydd da. Mae medrau disgyblion wrth ddefnyddio ystod eang o dechnoleg gwybodaeth a chyfathrebu ar draws yr ysgol yn dda. Gwna'r disgyblion ddefnydd effeithiol o rifedd ar draws y cwricwlwm.

Mae nifer y disgyblion sydd yn y garfan i'w hasesu ar ddiwedd y ddau gyfnod allweddol yn flynyddol yn amrywio, ac yn aml iawn yn isel. Golyga hyn bod canlyniadau un neu ddau ddisgybl ar adegau'n medru dylanwadu'n arwyddocaol ar berfformiad y garfan.

Yn y Cyfnod Sylfaen, mae cyfran y disgyblion saith mlwydd oed sy'n cyrraedd y lefel ddisgwyliedig (lefel 2) yn gyffredinol wedi cymharu'n anffafriol â chyfartaleddau'r teulu o ysgolion dros y ddwy flynedd ddiwethaf. Mae hyn wedi gosod yr ysgol ymhlith y 25% isaf o gymharu ag ysgolion tebyg o ran yr hawl i brydau ysgol yn ddi-dâl yn y Gymraeg yn 2010 a 2011 ac ym mathemateg yn 2011. Mae'r canran o ddisgyblion sy'n cyrraedd lefelau uwch na'r disgwyl yn amrywio mewn cymhariaeth ag ysgolion eraill y teulu, a Chymru gyfan dros y tair blynedd ddiwethaf. Yn gyffredinol, o gymharu â'r ffigurau cenedlaethol, yn arbennig yn y Gymraeg, mae cyflawniadau'r merched yn well na'r bechgyn dros y pum mlynedd ddiwethaf.

Yng nghyfnod allweddol 2, mae perfformiad yr ysgol mewn Cymraeg, Saesneg, mathemateg a gwyddoniaeth gyda'i gilydd (y dangosydd pynciau craidd) yn gyffredinol wedi bod yn uwch na chyfartaleddau ysgolion y teulu a Chymru dros y

pum mlynedd ddiwethaf. Yn 2011, roedd canran y disgyblion a gyflawnodd lefel 5 neu uwch, yn is na chyfartaledd y teulu yn y Gymraeg a Saesneg, ond yn uwch ym mathemateg a gwyddoniaeth. O gymharu â'r ffigurau cenedlaethol, yn arbennig yn y Gymraeg a Saesneg, mae merched yn perfformio'n well na'r bechgyn dros gyfnod.

**Lles: Da**

Mae disgyblion yn hapus ac yn teimlo'n ddiogel yn yr ysgol. Mae ymddygiad a hunanddisgyblaeth rhan fwyaf o'r disgyblion mewn gwersi ac o amgylch yr ysgol yn dda ac maent yn dangos gofal a phryder am les ei gilydd. Maent yn awyddus i ddysgu ac yn dangos lefel effeithiol o gymhelliant yn y dosbarth.

Mae disgyblion sy'n arweinwyr cylch chwarae yn gofalu'n briodol am ddisgyblion eraill amser egwyl ac amser cinio. Mae gan ddisgyblion ddealltwriaeth dda o beth y mae'n ei olygu i fod yn heini ac iach ac mae ganddynt fedrau cymdeithasol da.

Mae disgyblion sy'n aelodau o'r cyngor ysgol a'r eco-gyngor yn weithgar wrth wneud penderfyniadau sy'n effeithio ar lawer o agweddau ar fywyd yr ysgol. Mae'r rhain yn cynnwys ailgylchu, arbed ynni a threfnu digwyddiadau codi arian er budd yr ysgol ac elusennau. Trwy wasanaethau ysgol a digwyddiadau eraill, mae aelodau o'r cyngor ysgol a'r eco-gyngor yn cyfleu pwysigrwydd cyfrifoldebau o'r fath wrth ddisgyblion eraill.

Mae lefelau presenoldeb yr ysgol dros gyfnod yn cymharu'n ffafriol iawn â rhai ysgolion tebyg ac mae'r lefel presennol, sef 95.7%, yn uwch na'r ffigwr cenedlaethol. Mae'r ffigwr absenoldebau heb awdurdod yn is na'r teulu. Mae prydlondeb disgyblion ar ddechrau'r dydd yn dda.

Drwy gymryd rhan a chyfrannu at ystod eang o ddigwyddiadau a gweithgareddau cymdeithasol, mae ymwybyddiaeth gref gan y disgyblion o'r ardal a'r gymuned leol.

| | |
|---|---|
| **Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?** | **Da** |

**Profiadau dysgu: Da**

Mae profiadau dysgu'n ysgogol a cheir cynlluniau gwersi manwl ym mhob dosbarth sy'n sicrhau bod gweithgareddau'n cynnig parhad a dilyniant yn nysgu'r disgyblion. Mae cynllunio athrawon yn canolbwyntio'n addas ar ddatblygiad medrau disgyblion ar draws ystod o bynciau. Mae'r ddarpariaeth ar gyfer medrau cyfathrebu, rhifedd, technoleg gwybodaeth a chyfathrebu a meddwl yn effeithiol ac yn sicrhau bod disgyblion yn cael ystod amrywiol a dychmygus o brofiadau.

Ar y cyfan, mae'r cwricwlwm yn bodloni anghenion grwpiau penodol o ddisgyblion ac unigolion, ac yn darparu rhaglenni da ar gyfer disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol. Fodd bynnag, nid oes digon o gyfleoedd addas a chyson i ddisgyblion ysgrifennu'n estynedig yn yr iaith Saesneg ar draws y cwricwlwm ac nid yw anghenion y disgyblion mwyaf galluog yn cael eu diwallu yn effeithiol bob amser.

Mae'r cynllunio a'r ddarpariaeth ar gyfer datblygiad yr iaith Gymraeg yn gynhwysfawr ac yn galluogi disgyblion i wneud cynnydd da. Mae gan y Dimensiwn Cymreig rôl ganolog yn yr ysgol gydag amrywiaeth eang o gyfleoedd wedi eu darparu ar gyfer datblygu gwybodaeth a dealltwriaeth disgyblion o ddathliadau, hanes a diwylliant Cymru.

Anogir disgyblion i ailgylchu a gwarchod ynni yn rheolaidd ac mae gweithgareddau'r ardd yn datblygu'n dda. Nid yw'r ddarpariaeth ar gyfer dinasyddiaeth fyd eang wedi ei datblygu'n ddigonol.

**Addysgu: Da**

Mae ansawdd yr addysgu'n gyson dda. Mae gan staff wybodaeth bynciol briodol ac maent yn defnyddio ystod o weithgareddau a dulliau i herio rhan fwyaf o'r disgyblion yn effeithiol. Mae athrawon a disgyblion yn cydweithio'n dda ac mae gan athrawon ddisgwyliadau uchel o ddisgyblion o ran eu hymddygiad a'u hagweddau. Mae athrawon yn defnyddio'r adnoddau sydd ar gael yn effeithiol, yn enwedig technoleg gwybodaeth a chyfathrebu. Maent yn rhannu amcanion dysgu clir gyda disgyblion ar ddechrau gwersi, ac mewn llawer o wersi mae ffocws cryf ar sicrhau bod disgyblion yn arfarnu eu dysgu ar y diwedd. Cyfranna'r staff cymorth yn sylweddol at ddysgu'r disgyblion.

Mae strategaethau asesu ar gyfer dysgu yn datblygu'n addas yn y mwyafrif o wersi ac mae athrawon yn cynnwys disgyblion yn y broses o osod targedau ar gyfer gwella, ond nid yw'r arfer yn gyson ar draws yr ysgol. Mae'r rhan fwyaf o athrawon yn marcio'n rheolaidd, ond nid yw'r marcio'n ddigon manwl bob amser i sicrhau bod y disgyblion yn deall sut i wella'u gwaith a'r camau nesaf. Mae trefniadau priodol yn eu lle i safoni a chymedroli asesiadau athrawon. Er bod gan yr ysgol gyfundrefn newydd i dracio cynnydd disgyblion, nid yw eto wedi ymwreiddio i sicrhau fod gan yr ysgol wybodaeth glir am gynnydd pob disgybl dros amser.

Mae'r adroddiadau diwedd blwyddyn i rieni yn bodloni gofynion statudol.

**Gofal, cymorth ac arweiniad: Da**

Mae'r ysgol yn gymuned gynnes a chroesawgar lle mae ansawdd y gofal am ddisgyblion yn dda. Anogir disgyblion i fwyta'n iach a thrwy weithgareddau corfforol sicrheir bod ganddynt ystod eang o gyfleoedd i gynyddu lefel eu ffitrwydd a'u hiechyd. Mae datblygiad personol, ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol disgyblion wedi ei gydlynu'n dda ac wedi ei wreiddio'n gryf yn y cwricwlwm ac yng ngweithgareddau dyddiol yr ysgol.

Mae'r ysgol yn hyrwyddo presenoldeb da yn gyson ac yn sicrhau bod disgyblion a rhieni'n ymwybodol o'i disgwyliadau. Gwna'r disgyblion y defnydd llawnaf o'r gefnogaeth broffesiynol yn yr ysgol a hefyd gan wasanaethau ac asiantaethau arbenigol.

Mae gan yr ysgol weithdrefnau a pholisi priodol ar gyfer diogelu.

Mae'r ysgol yn adnabod y disgyblion sydd ag anghenion dysgu ychwanegol yn gynnar ac yn darparu cynlluniau addysg unigol priodol ar eu cyfer sy'n rhoi ystyriaeth i lais y disgybl. Gwneir defnydd synhwyrol o wasanaethau ac unigolion arbenigol i gefnogi a rhoi arweiniad i'r disgyblion. Mae'r ysgol yn trefnu cyfarfodydd adolygu rheolaidd a gweithredir yn effeithiol ar yr argymhellion. Mae'r rhieni a gofalwyr yn cael eu cynnwys yn briodol yn yr holl brosesau. Mae'r ysgol wedi dechrau defnyddio strategaeth bwrpasol ar gyfer adnabod disgyblion mwy abl a thalentog.

**Yr amgylchedd dysgu: Da**

Mae ethos cartrefol o fewn yr ysgol sy'n hyrwyddo'r ymdeimlad o berthyn, parch a chydraddoldeb ac sy'n seiliedig ar weithredu polisïau sy'n parchu hawliau pob unigolyn o fewn cymuned yr ysgol. Cyfranna'r awyrgylch yn helaeth at lefelau presenoldeb a safonau ymddygiad ar draws yr ysgol. Hyrwyddir ymagweddau cadarnhaol tuag at gydraddoldeb ac amrywiaeth drwy weithdrefnau megis casglu tuag at elusennau. Un o nodweddion arbennig yr ysgol yw balchder y staff a'r disgyblion yn eu Cymreictod. Caiff hyn ddylanwad arwyddocaol ar ddatblygiad y Gymraeg.

Mae'r polisi cyfle cyfartal yn cael ei weithredu'n effeithiol, gyda phob rhan o'r adeilad yn gwbl addas ar gyfer disgyblion anabl.

Ceir ystod eang ac amrywiol o adnoddau priodol. Mae'r adeilad a'r cyfleusterau allanol wedi eu datblygu'n effeithiol ac yn cael eu defnyddio i'r eithaf i hybu deilliannau da ar gyfer y disgyblion. Mae arddangosfeydd helaeth mewn ystafelloedd dosbarth sy'n destun balchder i'r disgyblion.

Caiff yr adeiladau a'r tir eu cynnal a'u cadw'n dda ac maent yn darparu amgylchedd ysgogol ar gyfer chwarae a dysgu.

| | |
|---|---|
| **Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?** | **Da** |

**Arweinyddiaeth: Da**

Yn y cyfnod byr ers ei phenodiad mae'r pennaeth wedi rhoi arweiniad clir a phwrpasol sy'n cael effaith bositif ar ddatblygiad yr ysgol. Fe rennir gweledigaeth am gyfeiriad yr ysgol yn llwyddiannus gydag aelodau'r staff a'r llywodraethwyr. Mae aelodau eraill o'r staff yn cefnogi'r pennaeth yn dda ac maent yn ymgymryd ag ystod o gyfrifoldebau'r cwricwlwm ac yn arwain mentrau cwricwlaidd yn effeithiol.

Mae pob aelod o'r staff yn ymwybodol o'u rolau a'u cyfrifoldebau ac maent yn cydweithio'n agos gyda'i gilydd i greu ethos cartrefol ar gyfer y disgyblion. Mae gan yr ysgol ystod eang o weithdrefnau a pholisïau priodol.

Mae'r ysgol yn effro i fentrau addysgol a pholisïau yn lleol ac yn genedlaethol ac yn ymateb yn frwdfrydig i gyfleoedd i ddatblygu ei darpariaeth yn unol â hynny, er enghraifft, mewn perthynas â'r Cyfnod Sylfaen.

Mae gan y corff llywodraethol wybodaeth addas ynglŷn â'r ysgol ac mae'r llywodraethwyr yn derbyn adroddiadau rheolaidd gan y pennaeth. Mae'r llywodraethwyr yn ymwybodol o'r cryfderau a'r meysydd i'w datblygu. Er hynny, nid ydynt yn herio'r ysgol yn ddigonol nac yn chwarae rhan ddigon blaenllaw ym mhroses hunan-arfarnu'r ysgol fel cyfeillion beirniadol.

**Gwella ansawdd: Da**

Mae'r ysgol wedi sefydlu gweithdrefnau priodol i adolygu holl elfennau ei gwaith dros gylch amser. Mae'r gyfundrefn hunan-arfarnu yn rhoi sylw priodol i ddadansoddiadau data a deilliannau gweithdrefnau monitro. Rhoddir ystyriaeth lawn

i arfarniadau parhaus o les disgyblion, ac i farn y disgyblion, rhieni a gwasanaeth addysg yr awdurdod lleol. Caiff aelodau'r staff gyfleoedd priodol i gyfrannu i'r broses hunan arfarnu.

Mae mwyafrif o flaenoriaethau gwella'r ysgol yn cysylltu'n glir â'r cynllun datblygu ysgol. Er enghraifft, mae codi safonau llythrennedd a herio'r disgyblion mwyaf abl wedi eu hadnabod fel dau o'r blaenoriaethau cyfredol. Mae strategaethau addas i sicrhau'r gwelliannau yn cael eu hadnabod ac mae'r rhain yn cynnwys pennu cyfrifoldeb arweiniol, a dangosyddion llwyddiant, ynghyd ag amserlenni penodol a'r adnoddau a glustnodwyd. Mae'r ysgol wedi gwneud cynnydd da yn ymateb i argymhellion yr arolygiad diwethaf.

Nid yw'r ysgol wedi sefydlu'n rhan o gymuned ddysgu broffesiynol.

**Gweithio mewn partneriaeth: Da**

Mae'r ysgol yn gweithio'n effeithiol gydag ystod eang o bartneriaid sy'n cael effaith fuddiol ar les a chyrhaeddiad ddisgyblion. Mae cysylltiadau cryf iawn gyda'r rhieni sy'n dylanwadu ar lwyddiant y plant a'r ysgol. Cyfranna'r partneriaethau yma yn effeithiol at gyfoethogi'r ddarpariaeth a gwella'r deilliannau er budd y disgyblion.

Mae partneriaethau da hefyd gyda'r awdurdod lleol.

Mae cysylltiadau agos â'r gymuned leol a'r capeli, ac fe gaiff y rhain ddylanwad cadarnhaol ar ansawdd profiadau disgyblion ac maent yn helpu i ffurfio cysylltiad cymunedol agos.

Mae'r cydweithio gydag Ysgol Uwchradd y Preseli yn datblygu'n effeithiol ac wedi codi hyder a gwella ansawdd y ddarpariaeth mewn nifer o feysydd. Mae'r bartneriaeth gyda'r ysgol uwchradd a'r clwstwr yn datblygu'n briodol i sicrhau ansawdd a dealltwriaeth ar y cyd o safonau ar ddiwedd cyfnod allweddol 2.

**Rheoli adnoddau: Da**

Mae gan yr ysgol ddigon o athrawon a chynorthwywyr dosbarth i gynnig addysg briodol i'w disgyblion. Cânt eu rheoli'n effeithiol mewn ffordd sy'n gwneud y defnydd gorau o'u medrau addysgu arbenigol. Gwna athrawon ddefnydd effeithlon o'u cyfnod cynllunio, paratoi ac asesu i baratoi gwersi a marcio gwaith y disgyblion. Mae gan bob athro ddisgrifiad swydd ac maent yn manteisio ar hyfforddiant sy'n eu galluogi i weithredu'r strategaethau gwelliant a nodir yng nghynllun datblygu'r ysgol.

Ceir gweithdrefnau rheoli perfformiad addas a chaiff staff dargedau priodol sy'n cyd-fynd â'u datblygiad proffesiynol a'r blaenoriaethau yn y cynllun datblygu ysgol. Caiff pob un o'r staff cymorth hefyd gyfweliad rheoli perfformiad blynyddol.

Mae'r ardal leol yn cael ei ddefnyddio yn dda ar gyfer gweithgareddau dysgu. Mae gan yr ysgol gyflenwad da o adnoddau dysgu addas. Mae athrawon a disgyblion yn gwneud defnydd effeithiol o gyfrifiaduron a chyfarpar technoleg gwybodaeth a chyfathrebu arall.

Mae rheolwyr yn sicrhau fod cyllideb yr ysgol yn cael ei gwario i gefnogi blaenoriaethau'r ysgol. Mae'r ysgol yn darparu gwerth da am arian.

## Atodiad 1

**Sylwadau ar ddata perfformiad**

Yn asesiadau ar ddiwedd cyfnod allweddol 1, mae canran y disgyblion sy'n cyflawni'r lefel ddisgwyliedig (lefel 2) mewn Cymraeg, mathemateg a gwyddoniaeth mewn cyfuniad wedi bod yn is na ffigurau Cymru a'r teulu o ysgolion tebyg dros y ddwy flynedd ddiwethaf ac yn uwch yn y ddwy flynedd cyn hynny. Mae'r canran o ddisgyblion sy'n cyrraedd lefelau uwch na'r disgwyl yn amrywio mewn cymhariaeth ag ysgolion eraill y teulu a Chymru gyfan dros y tair blynedd ddiwethaf. Yn gyffredinol, o gymharu â'r ffigurau cenedlaethol, yn arbennig yn y Gymraeg, mae cyflawniadau'r merched yn well na'r bechgyn dros y pum mlynedd ddiwethaf.

Dros y pedair blynedd ddiwethaf, roedd perfformiad yr ysgol yng nghyfnod allweddol 1 yn y 50% isaf o gymharu ag ysgolion â lefelau tebyg o ran yr hawl i brydau ysgol di-dâl, ond am fathemateg a gwyddoniaeth oedd yn y 25% uchaf yn 2010.

Yng nghyfnod allweddol 2, mae perfformiad yr ysgol mewn Cymraeg, Saesneg, mathemateg a gwyddoniaeth gyda'i gilydd (y dangosydd pynciau craidd) yn gyffredinol wedi bod yn uwch na chyfartaleddau ysgolion y teulu a Chymru dros y pum mlynedd ddiwethaf.

Yn y Gymraeg a Saesneg, mae'r canran o ddisgyblion a gyflawnodd lefel 4 neu uwch yn gyffredinol wedi bod yn uwch na chymedr y teulu o ysgolion mewn pedair o'r pum mlynedd ddiwethaf.

Yn 2011, roedd canran y disgyblion a gyflawnodd lefel 4 mewn Cymraeg neu Saesneg, mathemateg a gwyddoniaeth mewn cyfuniad yn gosod yr ysgol ymhlith y 50% uchaf o gymharu ag ysgolion tebyg o ran yr hawl i brydau ysgol ddi-dâl. Mae perfformiad mewn Saesneg, Cymraeg, mathemateg a gwyddoniaeth wedi amrywio o'r 25% isaf i'r 50% uchaf o'i gymharu â chanlyniadau ysgolion tebyg dros y blynyddoedd diwethaf.

Yn 2011, roedd canran y disgyblion a gyflawnodd lefel 5 neu uwch, yn is na chyfartaledd y teulu yn y Gymraeg a Saesneg, ond yn uwch ym mathemateg a gwyddoniaeth. O gymharu â'r ffigurau cenedlaethol, yn arbennig yn y Gymraeg a Saesneg, mae merched yn perfformio'n well na'r bechgyn dros gyfnod .

## Atodiad 2

### Adroddiad boddhad rhanddeiliaid

### Holiaduron dysgwyr

Llenwyd yr holiaduron dysgwyr gan 58 o ddisgyblion cyfnod allweddol 2. Mae'r ymatebion yn rhoi darlun cadarnhaol, sydd o gwmpas neu'n uwch na'r cyfartaleddau cenedlaethol ar gyfer ysgolion cynradd ar gyfer pob agwedd. Mae bron y cyfan o'r disgyblion yn teimlo eu bod yn gwneud yn dda yn yr ysgol, bod yr ysgol yn delio'n dda ag unrhyw achos o fwlio ac yn rhoi cymorth ychwanegol yn ôl yr angen. Mae pob disgybl yn teimlo'n ddiogel ac yn datgan bod yr athrawon ac oedolion eraill yn yr ysgol yn eu helpu i ddysgu ac i wneud cynnydd. Mae pob un yn gwybod at bwy i droi yn achos gofid neu i holi am gyngor a bron y cyfan yn nodi bod yr ysgol yn eu dysgu sut i gadw'n iach.

### Holiaduron rhieni/gofalwyr

Derbyniwyd 36 o holiaduron wedi eu llenwi gan rieni/gofalwyr. Mae'r ymatebion yn gadarnhaol ac o gwmpas neu'n uwch na'r cyfartaleddau cenedlaethol. Mae bron y cyfan yn cytuno bod eu plant yn gwneud cynnydd da a'u bod yn cael gwybodaeth gyson am eu cynnydd. Mae pob rhiant yn nodi bod eu plant yn teimlo'n ddiogel yn yr ysgol a bron pob un yn cytuno bod eu plant yn cael eu hannog i gadw'n iach. Mae bron y cyfan o'r rhieni yn datgan bod safonau ymddygiad yn dda a bod yr addysgu'n dda a bod staff yn trin pob disgybl yn deg a gyda pharch. Mae llawer o'r rhieni yn nodi eu bod yn deall trefn gwyno'r ysgol a'u bod yn teimlo'n esmwyth ynglŷn â chodi unrhyw fater. Mae llawer yn cytuno bod yr ysgol yn cael ei rhedeg yn dda.

## Atodiad 3

### Y tîm arolygu

| | |
|---|---|
| Gareth Evans | Arolygydd Cofnodol |
| Hazel Hughes | Arolygydd Tîm |
| Dylan Jones | Arolygydd Lleyg |
| Delyth Mainwaring | Arolygydd Cymheiriaid |
| Shan Clarke | Enwebai'r Ysgol |

## Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael gan yr ysgol ac ar wefan Estyn (www.estyn.gov.uk)

O dan Reoliadau Safonau Ysgolion Annibynnol (Cymru) 2003, rhaid i'r ysgol ddarparu copïau o'r adroddiad i holl rieni'r ysgol. Lle mae disgybl yn cael ei leoli yno gan awdurdod lleol, dylai'r ysgol anfon copi o'r adroddiad at bob awdurdod perthnasol. Os yw ar gael, mae'r adroddiad data i'w weld ar ein gwefan ochr yn ochr â'r adroddiad hwn.

**Grwpiau blwyddyn a chyfnodau allweddol**

Mae ysgolion yn defnyddio system gyffredin o rifo grwpiau blwyddyn o ddechrau addysg ysgol orfodol i 18 oed. Mae'r system hon yn pwysleisio pwysigrwydd parhad ac yn hwyluso cyfathrebu ymhlith ysgolion, cyrff llywodraethol, rhieni ac AALlau.

Mae'r term 'Derbyn' (CSD) yn cyfeirio at grŵp blwyddyn o ddisgyblion mewn ysgol gynradd sy'n cyrraedd 5 oed yn ystod y flwyddyn academaidd. Mae CS Blwyddyn 1 yn cyfeirio at y grŵp blwyddyn o ddisgyblion sy'n cyrraedd 6 oed yn ystod y flwyddyn academaidd, ac ati. Blwyddyn 13 yw'r grŵp o fyfyrwyr sy'n cyrraedd 18 oed yn ystod y flwyddyn academaidd.

Cyfnod cynradd:

| Blwyddyn | CSD | CSB1 | CSB2 | B3 | B4 | B5 | B6 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Oedrannau | 4-5 | 5-6 | 6-7 | 7-8 | 8-9 | 9-10 | 10-11 |

Cyfnod uwchradd:

| Blwyddyn | B7 | B8 | B9 | B10 | B11 | B12 | B13 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Oedrannau | 11-12 | 12-13 | 13-14 | 14-15 | 15-16 | 16-17 | 17-18 |

Mae'r pedwar cyfnod allweddol yn cwmpasu'r grwpiau blwyddyn canlynol:

| | |
|---|---|
| Cyfnod Sylfaen | Dosbarth Derbyn, Blwyddyn 1 a Blwyddyn 2 |
| Cyfnod allweddol 2 | Blwyddyn 3 i Flwyddyn 6 |
| Cyfnod allweddol 3 | Blwyddyn 7 i Flwyddyn 9 |
| Cyfnod allweddol 4 | Blwyddyn 10 a Blwyddyn 11 |

# Rhestr termau – Cynradd

## Cwricwlwm Cenedlaethol

### Lefelau disgwyliedig y Cwricwlwm Cenedlaethol

- Erbyn diwedd cyfnod allweddol 1, yn saith oed, disgwylir i ddysgwyr gyrraedd lefel 2 a disgwylir i'r rhai mwy galluog gyrraedd lefel 3.
- Erbyn diwedd cyfnod allweddol 2, yn un ar ddeg oed, disgwylir i ddysgwyr gyrraedd lefel 4 a disgwylir i'r rhai mwy galluog gyrraedd lefel 5.

### Y dangosydd pwnc craidd ym mhob cyfnod allweddol

Mae'r dangosydd pwnc craidd yn ymwneud â'r perfformiad disgwyliedig mewn Cymraeg neu Saesneg iaith gyntaf, mathemateg a gwyddoniaeth, sef pynciau craidd y Cwricwlwm Cenedlaethol. Rhaid i ddysgwyr gyrraedd y lefel ddisgwyliedig o leiaf mewn Cymraeg neu Saesneg iaith gyntaf ynghyd â mathemateg a gwyddoniaeth er mwyn cyflawni'r dangosydd pwnc craidd.

### Setiau Data Craidd Cymru Gyfan

Gall ysgolion ac awdurdodau lleol gyfeirio at berfformiad o gymharu â'u teulu o ysgolion. Crëwyd y teuluoedd hyn o ysgolion i alluogi ysgolion gymharu'u perfformiad ag ysgolion tebyg ar hyd a lled Cymru. Mae teuluoedd yn cynnwys ysgolion â chyfrannau tebyg o ddisgyblion â hawl i gael prydau ysgol am ddim, disgyblion sy'n byw yn 20% o'r ardaloedd mwyaf difreintiedig yng Nghymru, disgyblion sydd ag anghenion addysgol arbennig yn cael cymorth drwy'r cynllun gweithredu gan yr ysgol a mwy neu â datganiad, a disgyblion sy'n llai na chymwys o ran dysgu Saesneg fel iaith ychwanegol.